## Papur ar gyfer Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Rhoi Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd ar waith

### Diben

Mae'r papur hwn yn cynnwys gwybodaeth am y broses o roi *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd* ar waith ym mhob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### Camau i'w Cymryd

| |
|---|
| Bod Cyngor Adnewyddu’r Economi yn nodi'r gweithgareddau a gynhaliwyd dros y pum mis diwethaf i roi *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd ar waith.* |

### Busnesau ac Adnewyddu'r Economi

Yn dilyn ei lansio ar 5 Gorffennaf, dechreuwyd rhoi *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* ar waith ar unwaith, gydag amserlen uchelgeisiol o gamau gweithredu i gyflawni'r polisi. Yn syml, nid yw economi Cymru wedi bodloni ein disgwyliadau. Nid yw parhau yn yr un modd yn dderbyniol. Mae angen dull newydd sy'n mynd i'r afael â materion systematig ein heconomi, a dyna yw diben *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*.

Lansiwyd y polisi ar ôl cyfnod hir ac arloesol o ymgysylltu â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghylch cryfderau a gwendidau ein dull gweithredu blaenorol a'r heriau a'r cyfleoedd sydd angen i ni eu hwynebu er mwyn gwella ein ffyniant.

Bydd llwyddiant y dull newydd hwn yn dibynnu ar y broses barhaus o ymgysylltu'n agos â busnesau a phartneriaid ledled Cymru. Bydd cyngor gan endidau y tu hwnt i Lywodraeth y Cynulliad, yn arbennig y rhai â record o lwyddo mewn busnes yn atgyfnerthu ein rhaglen.

Rydym yn gweithio gyda Richard Parry-Jones (cyn is-lywydd grŵp Datblygu Cynnyrch Byd-eang, a Phrif Swyddog Technegol Cwmni Moduron Ford), bydd mwy o ddigwyddiadau bord gron gyda phartneriaid allweddol a byddwn yn manteisio ar arbenigedd y Paneli Sector. Rydym am ymgysylltu â Chyngor Adnewyddu'r Economi i sicrhau y gall eich safbwyntiau chi ein helpu i gyflawni dros Gymru. Rydym am i'n holl bartneriaid ein harwain a'n herio, i sicrhau ein bod yn adnewyddu'r economi o ddifrif i Gymru.

## Cyflawni'r broses o Adnewyddu'r Economi

*Bydd Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* yn hwyluso economi gryfach a mwy cynaliadwy drwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, ymchwil a datblygu a gwella'r amodau cyffredinol ar gyfer busnesau. Mae pum blaenoriaeth y polisi fel a ganlyn:

- Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel;
- Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes;
- Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau;
- Annog arloesi;
- Targedu'r cymorth busnes a gynigir gennym er mwyn helpu i sicrhau mantais gystadleuol i Gymru.

## Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel

Yr ymrwymiad allweddol o ran seilwaith yw sicrhau bod band eang y genhedlaeth nesaf ar gael i bob busnes yng Nghymru erbyn canol 2016, ac i bob aelwyd erbyn 2020. Gwnaethom ymrwymo i ffurfio tîm seilwaith newydd, i integreiddio'r gwaith o gynllunio a darparu'r seilwaith yn llawn, ymchwilio i'r opsiynau o ran datblygu Cynllun Seilwaith i Gymru, adolygu ein daliadau tir a datblygu dull gweithredu o ran safleoedd busnes.

*Cynnydd o ran Cyflawni*

Rydym wedi cyflymu ein cynlluniau i sicrhau **band eang y genhedlaeth nesaf** i'r ardaloedd hynny yng Nghymru sydd y tu hwnt i gyrhaeddiad y farchnad, ochr yn ochr â gwaith a gyflawnir gan BT a Virgin Media. Mae'r tîm cyflawni prosiect wedi'i sefydlu, ac mae'r camau hanfodol sydd eu hangen i sefydlu'r prosiect bellach ar gam datblygedig. Mae trafodaethau â'r farchnad cyflenwi TGCh yn mynd rhagddynt er mwyn profi modelau a thybiaethau cynnar o ran strwythurau caffael, darparu a rhai masnachol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyflenwyr a rhanddeiliaid posibl rhwng nawr a mis Chwefror 2011, a fydd yn ein galluogi i ddechrau proses gaffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) erbyn gwanwyn 2011.

Mae gwaith cychwynnol yn mynd rhagddo i ddatblygu **Cynllun Seilwaith i Gymru**. Rydym yn ystyried yr opsiwn o ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer Cynllun Seilwaith i Gymru.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau ariannu presennol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith modern, megis y gronfa Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig. Rydym yn datblygu ffyrdd newydd o ariannu **Seilwaith yr Unfed Ganrif ar Hugain**, ac yn gweithio i ailgyfeirio gwerth ein hasedau i ariannu gwelliannau digidol a rhai ehangach o ran seilwaith. Rydym yn cynnal adolygiadau manwl o'n daliadau eiddo er mwyn penderfynu sut i sicrhau bod yr asedau hyn yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r gwaith o adnewyddu'r economi.

## Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes

Gwnaethom ymrwymiad i greu system gynllunio sy'n fwy ymatebol ac effeithlon; i roi pecyn o ddiwygiadau ar waith i sicrhau bod prosesau caffael cyhoeddus yn fwy hygyrch, fel y gall busnesau bach a mawr gystadlu ar gyfer prosesau caffael yn y sector cyhoeddus; a sicrhau bod ein holl weithgareddau yn ystyried effaith rheoleiddio ar fusnesau.

*Cynnydd o ran Cyflawni*

Rydym wedi dechrau bwrw ymlaen â newidiadau cynhwysfawr i'r **Broses o Wneud Cais Cynllunio.** Cyhoeddwyd gwaith ymchwil ar wella'r broses o wneud cais cynllunio ym mis Mehefin, ynghyd â'n hymateb i'r argymhellion, y maent oll wedi'u derbyn ac yn cael eu datblygu bellach. Cyhoeddwyd nifer o ymgynghoriadau ar symleiddio'r broses o wneud cais cynllunio.

Rydym yn cynnal adolygiad o **bolisi cynllunio**, i ystyried sut y gall y fframwaith polisi ategu ymhellach y gwaith o adnewyddu'r economi yng Nghymru, y bwriedir ei gwblhau ym mis Mawrth. Yn y flwyddyn newydd byddwn yn cynnal cyfres o gymorthfeydd peilot a fydd yn rhoi cyngor cynllunio ar gyfer BBaChau. Bydd y rhain yn cynnig arweiniad ar drefn y system gynllunio, cyngor ar faterion cynllunio penodol unigol ac yn cyfeirio pobl i'r cyfeiriadau a'r gwasanaethau priodol.

Rydym yn ei gwneud yn haws i fusnesau ddefnyddio prosesau **Caffael** Llywodraeth y Cynulliad, ac yn gwneud iddynt weithio'n galetach i adnewyddu'r economi. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) a newidiadau i wella'r wefan gaffael genedlaethol, GwerthwchiGymru. Mae ein dull newydd yn argoeli'n dda - hyd yma, mae 12 o'r 21 contract adeiladu a hysbysebwyd eleni wedi'u hennill gan fusnesau o Gymru.

Rydym yn gwella gwaith i gydgysylltu ein prosesau sy'n arwain at **reoliadau** sy'n effeithio ar fusnesau. Bydd hyn yn ein helpu i asesu effaith ein polisïau'n well.

## Ehangu a dyfnhau’r sylfaen sgiliau

Rydym wedi ymrwymo i greu partneriaeth wirioneddol â chyflogwyr o ran sgiliau'r gweithlu ar bob lefel, gan ysgogi ein pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith, a sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau ar waith fel y gall ein gweithlu ffynnu. Mae cyflawni hyn yn gyfrifoldeb ar y cyd i ni fel Llywodraeth, darparwyr dysgu, cyflogwyr ac unigolion.

*Cynnydd o ran Cyflawni*

Mae'r **strategaethau** "Er Mwyn Ein Dyfodol" a "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru" yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer meithrin sgiliau yng Nghymru, o'r blynyddoedd cynnar hyd at sgiliau lefel uwch. Cadarnhaodd *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* bwysigrwydd cyflawni'r strategaethau hyn, a'r

angen i atgyfnerthu'r gwaith o ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gyflenwi yn cael ei ffurfio ar sail y galw.

Ar 15 Medi cyhoeddwyd dull gweithredu newydd gennym ar gyfer yr **Adduned Cyflogwr**, sydd â'r nod o ymdrin â sgiliau sylfaenol yn y gweithle gyda chymorth £10 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd y buddsoddiad yn gwella sgiliau 30,000 o bobl sy'n gweithio mewn busnesau a sefydliadau o bob maint ledled Cymru. Disgwylir i 1000 o gyflogwyr ymuno â'r cynllun dros y pedair blynedd nesaf.

Rydym yn atgyfnerthu'r rhaglen **Prentisiaethau** ymhellach, gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir, system glirio ar gyfer Prentisiaethau, a'r rhaglenni Recriwtiaid Ifanc a Llwybrau at Brentisiaethau. Rydym yn parhau i helpu unigolion i ailhyfforddi yn dilyn diswyddiadau ac yn helpu busnesau i ymateb i'r dirywiad economaidd. Gwnaeth y **Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct)** helpu bron i 16,000 o bobl rhwng 1 Hydref 2008 a 30 Ebrill 2010. Gwnaeth **ProAct** ddyfarnu arian i 250 o geisiadau gan gwmnïau. Dyfarnwyd cyfanswm o dros £27 miliwn i'r 250 o gwmnïau, gan gefnogi 10,600 o unigolion.

Rydym yn parhau i ddarparu arian ar gyfer hyfforddiant i gwmnïau sydd wedi nodi cyfleoedd penodol ar gyfer twf, drwy **Sgiliau Twf Cymru**. Hyd yma, bu 17 o'r 85 o geisiadau a adolygwyd yn llwyddiannus, a dyfarnwyd cyfanswm o £2.3 miliwn i gefnogi bron 2,000 o unigolion. Mae 41 o gwmnïau pellach yn datblygu cynlluniau hyfforddi, ac os caiff y rhain eu cymeradwyo yna bydd bron 6,000 o unigolion yn cael eu cefnogi drwy'r cynlluniau hyn.

Mae **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu a'r Llinell Gymorth i Gyflogwyr** yn parhau i fod yn borth i gyflogwyr ddefnyddio'r rhaglenni hyn ac eraill gan gynnwys Gweithdai Arwain a Rheoli, y rhaglen Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli (ELMS), Rhaglen yr Adduned Cyflogwr, ReAct a chyllid dewisol i gefnogi anghenion penodol. Mae Prosiect Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector yn fodd i ni ymchwilio, drwy gydweithio â'r Cynghorau Sgiliau Sector, i sut y gellir datblygu atebion nad ydynt ar gael ar hyn o bryd drwy'r system brif ffrwd.

**Annog arloesi**

Yn *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*, nodwyd y bydd cyllid Ymchwil yn canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth, sy'n cynnig y cyfle gorau i sefydliadau addysg uwch Cymru sicrhau'r perfformiad ymchwil a'r effaith economaidd orau posibl: Yr economi ddigidol (TGCh); Yr economi carbon isel (gan gynnwys lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu); Iechyd a biowyddorau; a Pheirianneg a gweithgynhyrchu uwch. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu Academi Wyddoniaeth Genedlaethol

*Cynnydd o ran Cyflawni*

Dechreuom adolygu ein **cyfleusterau deorfeydd busnes** yn union wedi lansio *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*, ac mae'r adolygiad hwnnw

bron wedi'i gwblhau. Bydd Gweinidogion yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ar sut y byddwn yn cefnogi deorfeydd busnes yn y dyfodol.

Mae cynnig newydd i gefnogi **Ymchwil a Datblygu** wedi'i ddatblygu ac ar gael i fusnesau. Yn ogystal â chysylltiadau gwell rhwng busnesau a Sefydliadau Addysg Uwch, gall fusnesau bellach gael gafael ar arian, a fydd yn ad-daladwy hyd at saith mlynedd ar ôl cwblhau cam olaf y gwaith Ymchwil a Datblygu. Golyga hyn y bydd busnesau nawr ond yn ad-dalu arian ar ôl cael budd o'u gwaith ymchwil.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r Bwrdd Strategaeth Technoleg i ymchwilio i **Fenter Ymchwil Busnesau Bach** (SBRI) i Gymru. Mae rhaglen y Fenter Ymchwil Busnesau Bach yn ceisio defnyddio caffael y llywodraeth i hybu arloesed. Mae opsiynau ar gyfer hyn yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

**Targedu’r cymorth busnes a gynigir gennym**

Rydym yn datblygu dull gweithredu mwy strategol o ran cymorth busnes sy'n seiliedig ar y sector, a datblygu ein rôl fel hwylusydd a galluogydd arbenigol. Rydym yn targedu'r chwe sector allweddol canlynol:

- TGCh
- Ynni a'r Amgylchedd
- Y Diwydiannau Creadigol
- Gwyddor Bywyd
- Deunydd a gweithgynhyrchu blaengar
- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

*Cynnydd o ran Cyflawni*

Daeth y trefniadau newydd ar gyfer **Cymorth Cyllid Busnes** i rym ar 1 Medi. Gall busnesau yng Nghymru (neu rai sy'n dymuno dod i Gymru) fanteisio ar gymorth penodol wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys rheoli cydberthnasau, cymorth sgiliau, arian ad-daladwy sy'n targedu'r chwe sector allweddol, y gronfa ranbarthol, cymorth i ddechrau busnes a chymorth entrepreneuraidd. Defnyddir yr ad-daliadau i ariannu'r don nesaf o fuddsoddiadau busnes ac felly creu cronfa ar gyfer rhagor o fusnesau yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa Fuddsoddi Sengl (SIF) yn y broses o gael ei dirwyn i ben, ac mae'r ceisiadau etifeddol terfynol yn cael eu hystyried o dan yr amodau cymorth busnes blaenorol. Rydym yn ystyried ceisiadau a oedd eisoes ar y gweill pan lansiwyd y cyfeiriad polisi newydd. Derbyniwyd ceisiadau newydd hyd at 31 Awst ar yr amod eu bod ar gam trafod datblygedig.

Gan weithio gydag Awdurdodau Lleol rydym wedi codi'r trothwy ar gyfer y **Gronfa Fuddsoddi Leol** i £10,000 er mwyn darparu cynnig mwy ymatebol i ddiwallu anghenion lleol. Gall sefydliadau wneud cais am hyn a ffurfiau eraill ar gyllid i'w hawdurdod lleol.

Mae cymorth busnes ar gyfer sectorau megis twristiaeth a bwyd wedi symud i adrannau Llywodraeth y Cynulliad sydd â gwybodaeth arbenigol am y sectorau hyn. Er enghraifft, bellach darperir cymorth i **fusnesau bwyd** drwy'r Adran Materion Gwledig; bydd yr Adran Dreftadaeth yn darparu cymorth i **fusnesau twristiaeth**; a bellach bydd cymorth ar gael i **fentrau cymdeithasol** gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Rydym yn recriwtio arbenigwyr cydnabyddedig o'r sectorau hyn ar gyfer y **paneli sector**. Bydd cylch gwaith y paneli'n ymwneud â chynghori'r Gweinidogion ar y sector, â chyfleoedd i'r sector ac anghenion y sector, gan gynnwys y sylfaen sgiliau, a helpu i ddatblygu polisïau a rhoi cyngor o ran eu gweithredu. Mae Panel Sector y Diwydiannau Creadigol ar waith o dan gadeiryddiaeth Ron Jones. Cynhaliodd ei gyfarfod misol cyntaf ar 18 Hydref. Bydd y paneli sy'n weddill yn weithredol erbyn mis Ionawr.

I sicrhau y cyflawnir manteision y dull gweithredu sectoraidd, sefydlir **timau sector integredig**, wedi'u lleoli ledled Cymru, erbyn mis Rhagfyr. Bydd y timau'n defnyddio dull cyfannol, gan ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r sector, cynghori ar ddatblygu busnesau, Ymchwil a Datblygu, gofynion Seilwaith, cadwyni cyflenwi, sgiliau, mynediad at gyllid, buddsoddi uniongyrchol tramor a masnach i ddatblygu mantais gystadleuol. Byddant yn gweithio gyda'r paneli sector i ddatblygu'r Cynlluniau Gweithredu Sector.

Rydym wedi lansio **Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES)** ac **Ymgyrch Syniadau Mawr Cymru**. Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn ceisio cefnogi pobl ifanc yng Nghymru i gyflawni eu potensial, boed drwy sefydlu busnes, gweithio i rywun arall neu drwy wneud rhywbeth yn y gymuned.

**Sylwadau i gloi**

Yn ystod y tri degawd diwethaf trawsnewidiwyd yr hinsawdd economaidd a masnach fyd-eang. I oroesi a ffynnu yn y byd newydd hwn, rhaid i ni newid hefyd. Golyga Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd ein bod bellach yn gyson â heriau economi sydd wedi'i globaleiddio ac sy'n symud yn gyflym.

Nid dogfen bolisi i hel llwch ar y silff yw hon, ond cynllun gweithredu sydd eisoes ar waith. Rydym bellach ar gam datblygedig o ran gweithredu'r cynllun a disgwylir i'r newidiadau sefydliadol a gweithredol mawr fod ar waith erbyn mis Rhagfyr, yn unol â'r targed.

Mae ein huchelgais yn mynd y tu hwnt i'r cam o roi'r rhaglen hon ar waith: caiff manteision hirdymor y dull gweithredu hwn flaenoriaeth dros benawdau byrdymor. Roedd y system flaenorol yn gweithio yn y gorffennol; ond rydym yn cytuno â'r consensws yn y gymuned fusnes ei fod yn bryd newid. Cred y llywodraeth hon y bydd y newid a roddwyd ar waith gennym yn helpu busnesau yng Nghymru i hybu twf economi ein gwlad.